


**GILLESPIES**

Mehefin 2016



## YNNI SOLAR PV RADDFA CAE

ADENDWM I ASESIAID  
SENSITIFRWYDD TIRWEDD  
A CHAPASITI MAWRTH 2014  
GWYNEDD A MÔN

ADRODDIAD TERFYNOL MEHEFIN 2016



<b>REV</b>	<b>DATE</b>	<b>BY</b>	<b>CHKD</b>	<b>STATUS</b>	<b>REASONS FOR REVISION/COMMENTS</b>	
<b>ORIGINATOR GILLESPIES LLP</b>						<b>REVISION Final</b>

## CYNNWYS

**ADRAN 1** : Cyflwyniad

**ADRAN 2** : Gwerthuso Sensitifrwydd Tirwedd a Ffurio Strategaethau

**ADRAN 3** : Arweiniad Generig ar Leoli a Dylunio ac Arweiniad ar Gyfer Asesu Effeithiau  
Tirwedd a Gweledol Cronnus

## FFIGYRAU

**FFIGWR 1**: Ardal yr Astudiaeth

**FFIGWR 2** : Dynodiadau Tirwedd a Chyfyngiadau

**FFIGWR 3** : Dynodiadau Treftadaeth Diwylliannol sydd yn Gysylltiedig â'r Tirwedd

**FFIGWR 4** : Datblygiadau Ynni Solar PV ar Raddfa Cae sydd yn Weithredol / gyda Caniatâd

**FFIGWR 5** : Sensitifrwydd Cyffredinol i Ddatblygiadau Ynni Solar PV sydd ar Raddfa Cae

## ATODIADAU

**ATODIAD A** : Tablau asesu sensitifrwydd, strategaethau tirwedd a nodiadau canllaw lleoli

# ADRAN 1: CYFLWYNIAD

## Diben yr Astudiaeth

- 1.1 Ym mis Mawrth 2014, cynhyrchwyd Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd gan Gyngor Gwynedd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri<sup>1</sup> (y cyfeirir ato fel 'adroddiad Mawrth 2014' o hyn ymlaen) er mwyn cynorthwyo i warchod eu tirweddau mwyaf sensitif a nodedig rhag datblygiad amhriodol (gan gynnwys datblygiad ynni PV solar mewn caeau). Ar y pryd, cafodd pedair Ardal Cymeriad y Dirwedd (ACD) dan Awdurdod Cyngor Gwynedd eu heithrio o'r astudiaeth oherwydd ystyriwyd nad oeddent dan bwysau sylweddol o gael datblygiadau ynni PV solar mewn caeau. Ceir trosolwg cryno o ddatblygiad ynni PV solar mewn caeau ym mharagraffau 1.13 i 1.17 yn adroddiad Mawrth 2014.
- 1.2 Ers i adroddiad Mawrth 2014 gael ei gynhyrchu, fe wnaeth cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Canllaw Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr (Medi 2015) ddisodli y Llawlyfr blaenorol a gyhoeddwyd yn 2010. Y newid mwyaf arwyddocaol ers llawlyfr 2010 yw'r ffaith ei fod yn cynnwys adran benodol ar ynni PV solar mewn caeau a'r gofyn i nodi ardaloedd posib a allai gael eu dynodi.
- 1.3 Felly, comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Gyngor Gwynedd fel adendwm i adroddiad Mawrth 2014 i ystyried capasiti a sensitifrwydd tirwedd pedair ACD Gwynedd mewn perthynas â datblygiad ynni PV solar mewn caeau:
- G11 – Blaenau Ffestiniog;
  - G13 – Abermaw;
  - G14 – Corris; a
  - G15 – Tywyn.
- Dangosir y pedair ACD hyn yn Ffigur 1 (Ardal yr Astudiaeth).
- 1.4 **Mae'n bwysig nodi fod yr adroddiad hwn wedi'i baratoi fel adendwm i adroddiad Mawrth 2014 a dylid ei ddarllen ar y cyd ag ef.**
- 1.5 Nod cyffredinol yr adendwm hwn yw hysbysu'r Cyngor dros asesu sensitifrwydd i ddatblygiad solar PV ar raddfa cae yn y 4 ACD nad oedd yn ddarostyngedig i asesiad o'r fath yn adroddiad mis Mawrth 2014. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i asesu'r addasrwydd o ddynodi unrhyw ardaloedd chwilio posibl ar gyfer datblygiadau solar PV ar raddfa cae o fewn yr ACD yma. Fe fydd hefyd yn cyfarwyddo datblygiad Canllaw Cynllunio Atodol a chynorthwyo'r Cyngor wrth

---

<sup>1</sup> Gillespies (2014); Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri (Dogfen Gefnogol CDLI ar y Cyd) (DC.020)

asesu effeithiau tirwedd a gweledol ynni PV solar mewn caeau er dibenion rheoli datblygiadau; ac i leihau effaith y fath ddatblygiadau ar y dirwedd.

## Amcanion yr Astudiaeth

1.6 Prif amcanion yr astudiaeth yw:

- Darparu asesiad strategol o sensitifrwydd ACD Blaenau Ffestiniog, Abermaw, Corris a Thywyn i ddatblygiadau ynni PV solar mewn caeau drwy ddefnyddio cyfres ddiffiniedig o feini prawf tirwedd a gweledol sy'n cynnwys agweddau ffisegol a chanfyddiadol ynghyd ag ystyriaeth o werth y dirwedd;
- Adnabod sensitifrwydd tirwedd, gweledol a chanfyddiadol allweddol y gwahanol ardaloedd; a
- Darparu cyfarwyddyd eang ar yr ardaloedd hynny ble byddai datblygiad o wahanol raddfeydd o bosib yn fwyaf derbynol a'r ardaloedd hynny ble mae'n debygol y byddai effeithiau tirwedd a gweledol niweidiol sylweddol.

## Fframwaith Cynllunio a Pholisi

1.7 Ceir adolygiad manwl o'r fframwaith cynllunio a pholisi sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon ym mharagraffau 1.26 i 1.76 adroddiad Mawrth 2014.

## Methodoleg

1.8 Mae Adran 2 adroddiad Mawrth 2014 yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd mewn perthynas â'r asesiad ar sensitifrwydd i ddatblygiadau ynni PV solar mewn caeau ac o ran ffurfio strategaethau ar gyfer pob ACD. Defnyddiwyd yr un fethodoleg i arwain yr asesiadau a gyflwynir yn yr adroddiad adendwm hwn.

1.9 Defnyddiwyd LANDMAP i gyfarwyddo asesiadau'r ACD (fel y'u disgrifir yn adroddiad Mawrth 2014 - paragraffau 2.5 i 2.9 a Thabl 2.04: Meini Prawf ar gyfer Asesu Sensitifrwydd Tirwedd a Gweledol i Ddatblygiadau Ynni PV Solar mewn Caeau). Ni fu dim newid i ddata LANDMAP mewn perthynas â'r ardal astudiaeth ers mis Mawrth 2014; felly, mae Atodiad 6 adroddiad Mawrth 2014 yn dal yn ddilys ar gyfer croes gyfeirio.

## Tirwedd Gwaelodlin

1.10 Mae'r pedair ACD wedi'u lleoli yng Ngwynedd. Mae Adran 3 adroddiad Mawrth 2014 yn disgrifio gwaelodlin cymeriad y dirwedd yn ardal yr astudiaeth ac yn hynny o beth, dylid cyfeirio at yr adroddiad gwreiddiol. Dengys dynodiadau tirwedd, ynghyd â dynodiadau treftadaeth ddiwylliannol sy'n ymwneud â thirwedd yn Ffigwr 2 (Dynodiadau a Chyfyngiadau Tirwedd) a Ffigwr 3 (Dynodiadau Treftadaeth Ddiwylliannol sy'n ymwneud â Thirwedd) yr adroddiad adendwm hwn. Mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar Ffigyrau 4.1 a 4.2 adroddiad Mawrth 2014.

## Datblygiadau Ynni PV Solar mewn Caeau sy'n Weithredol ac sydd wedi cael eu Caniatáu

- 1.11 Mae paragraffau 2.46, 2.47 a Thabl 2.09 adroddiad Mawrth 2014 yn egluro'r gwahanol deipoleg neu raddfa datblygiad PV solar a ystyrir yn yr aseiad.
- 1.12 Pennodd ymgysylltu rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym mis Mai 2016 bod yna ddau ddatblygiad ynni PV solar mewn caeau yn weithredol/wedi cael eu caniatáu o fewn yr ardal astudiaeth/ardal astudiaeth byffer fel a ganlyn. Dengys y rhain yn Ffigur 4 (Datblygiadau Ynni PV Solar mewn Caeau sy'n Weithredol/sydd wedi cael eu Caniatáu):
- Un datblygiad ar raddfa ganolig o fewn Tywyn G15 (i'r dwyrain o faracs Morfa Camp); ac
  - Un datblygiad ar raddfa ficro o fewn byffer Corris G14.

## ADRAN 2: GWERTHUSO SENSITIFRWYDD TIRWEDD A FFURFIO STRATEGAETHAU

- 2.1 Rhestrir y pedair ACD a ystyrir yn yr adroddiad adendwm hwn yn Nhabl 2.01 ynghyd â gwerthusiad cyffredinol o'u sensitifrwydd tirweddol a gweledol mewn perthynas â datblygiadau ynni PV solar mewn caeau. Dengys y gwerthusiadau sensitifrwydd cyffredinol yn Ffigwr 5 (Sensitifrwydd Cyffredinol i Ddatblygiadau Ynni PV Solar mewn Caeau) ac mae'r tablau asesu, strategaethau tirwedd a nodiadau canllaw ar gyfer lleoli wedi'u cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad adendwm hwn.

### Allwedd i Sensitifrwydd

Uchel lawn	Uchel	Canolig-Uchel	Canolig	Isel-Canolig	Isel
UI	U	C-U	C	I-C	I

*Tabl 2.01: Crynodeb o Sensitifrwydd*

Ardal Cymeriad y Dirwedd Gwynedd		Sensitifrwydd a aseswyd i Ddatblygiadau PV Solar mewn Caeau	Rhif tudalen yr atodiad
Cyfeirnod	Enw		
G11	Blaenau Ffestiniog	C-U	A-1
G13	Abermaw	U	A-8
G14	Corris	U	A-14
G15	Tywyn	C	A-20

### Dull gwerthuso Sensitifrwydd Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd a llunio strategaethau ar gyfer datblygiadau

- 2.2 Ceir disgrifiad manwl ynglŷn â sut yr aethpwyd ati i ymgymryd â gwerthusiadau sensitifrwydd ym mharagraffau 4.2 a 4.3 adroddiad Mawrth 2014.
- 2.3 Ceir disgrifiad o sut gaiff strategaeth tirwedd a nodiadau canllaw eu cyflwyno i bob ACD ym mharagraffau 4.4 a 4.5 adroddiad Mawrth 2014.

## ADRAN 3: ARWEINIAD GENERIG AR LEOLI A DYLUNIO AC ARWEINIAD AR GYFER ASESU EFFEITHIAU TIRWEDD A GWELEDOL CRONNUS

### Arweiniad Generig ar Leoli a Dylunio

- 3.1 Mae Adran 5 adroddiad Mawrth 2014 yn darparu arweiniad generig ar leoli a dylunio datblygiadau ynni PV solar mewn caeau er mwyn cynorthwyo gyda'r dasg o integreiddio datblygiadau o'r fath yn y dirwedd ehangach. Dylid darllen y canllawiau hynny ar y cyd â'r nodiadau canllaw mwy penodol a gaiff eu cynnwys ar gyfer pob ACD perthnasol (cyfeiriwch at Atodiad A).


### Arweiniad ar gyfer Aseu Effeithiau Tirwedd a Gweledol Cronnus

- 3.2 Mae adran 6 adroddiad Mawrth 2014 yn darparu arweiniad ar aseu effeithiau tirwedd a gweledol cronnus.



## **FFIGYRAU**

Ffigwr 1: Ardal yr Astudiaeth




Solar PV Study Area

Solar PV Study Area Buffer




FFIGWR 2 : Dynodiadau Tirwedd a Chyfyngiadau



- |                    |                      |  |  |
|--------------------|----------------------|--|--|
| Study Area         | Regional Cycle Route | Eryri Local Development Plan Undeveloped Coast   | Cynwyd and Llandrillo Area of Outstanding Beauty (AOB) |
| Overall Study Area | National Cycle Route | Eryri Local Development Plan Area Natural Beauty | AONB   |
|                    | National Cycle Link  | Special Landscape Areas                          | Heritage Coasts  |
|                    | National Trails      | Open Access Land                                 | National Park  |
|                    | Wales Coastal Path   |  |  |

FFIGWR 3 : Dynodiadau Treftadaeth Diwylliannol sydd yn Gysylltiedig â'r Tirwedd



Study

Overall Study

Hillfort

Conservation

Scheduled Ancient Monument (SAM)

Welsh Historic Landscape (WHL)

Historic Park and Garden

Gardens & Kitchen Gardens

Historic Park and Garden Essential Setting

Historic Park and Garden Significant View


World Heritage Sites

World Heritage Sites Essential Setting

World Heritage Sites Significant View

World Heritage Sites Arcs of

FFIGWR 4 : Datblygradau Ynni Solar PV ar Raddfa Cae aydd yn Weithredol / gyda Caniatâd



FIELD SCALE SOLAR PV DEVELOPMENT TYPOLOGIES  
(Operational & Consented Developments)

Solar PV Study Area

Solar PV Study Area Buffer

Micro

Small

Medium

Large

Very Large






## **ATODIADAU**

## **ATODIAD A : Tablau Aseiad Sensitifrwydd, Strategaethau Tirwedd a Nodiadau Canllaw Lleoli**



### G11 Blaenau Ffestiniog



1:50,000



Atgynhychwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatod yr Arolwg Ordnans R ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, c Rhif y Drwydded Hawffraint y Goron 100023387

**Lleoliad a Maint**

Mae'r ACT hon yn cynnwys ardal anymwithgar o dirwedd o amgylch tref chwarelyddol Blaenau Ffestiniog yng Ngwynedd. Mae'r ACT yn cael ei hamgylchynu'n llwyr gan y Parc Cenedlaethol.

**Nodweddion Allweddol**

- Tirwedd ucheldirol ar raddfa eang i enfawr
- Dominyddir gan wastraff llechi o ganlyniad i waith echdynnu mwynau gynt

**Arfarniad**

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hwn yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad gwahanol.

<b>Allwedd</b>	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math oddatblygiad ddim yn gymwys	
----------------	--------------------	---	-----------------------	---	------------------	---	---	--

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
<b>Tirwedd</b>	<b>Graddfa</b>	Dim yn berthnasol	
	<b>Patrwm, Graddfa a Chlostiroedd Caeau</b>	Mae rhan is a deheuol yr ACD hon yn cynnwys caeau bugeiliol. Cyfran fechan o'r ACD cyffredinol yw hyn sy'n ucheldiroedd agored yn bennaf. Ar y cyfan, mae'r caeau hyn ar raddfa fechan ac yn afreolaidd eu patrwm. Mae ffiniau caeau yn cynnwys <b>cymysgedd o ffensys, waliau cerrig sychion a gwrychoedd, a cheir coed niferus ym mhob un wedi'u britho gyda blociau o goetiroedd llydanddail.</b>  VS7: Cymysgedd (7%) / Dim (93%) / Waliau Cerrig (1%) VS8: Canolig (8%) / Mawr (49%) / Eang (43%)	↑
	<b>Tirffurf</b>	Mae'r tirffurf yn cael ei nodweddu gan <b>fryniau uchel a dyffrynnoedd</b> ac mae'n cael ei ddylanwadu'n drwm gan chwareli llechi. VS Lefel Dosbarthiad 2: Tir Adeiledig (49%) / Ucheldir / Llwyfandir Digysgod (43%) / Bryniau, Llwyfandir Is & LLeithrau Sgarp (8%) VS4: Bryniau Uchel / Mynyddoedd(43%) / Bryniau/ Dyffrynnoedd (49%) / Treigl / Tonnog (8%)	↑
	<b>Gorchudd Tir</b>	Mae'r gorchudd tir yn cael ei nodweddu gan <b>rostir yr ucheldir ar yn ail â lleithrau diffryth a chreigiog a llynnoedd ucheldirol a chronfeydd dŵr.</b> Mae'r ACT	-

Adendwm i Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd a Chapasiti Mawrth 2014 Gwynedd a Môn

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
		<p>hon hefyd yn cael ei dylanwadu'n drwm gan gyn <b>chwareli llechi a thomenni gwastraff</b> cysylltiedig ac i ryw raddau datblygiad trefol.</p> <p>VS Lefel Dosbarthiad 3: Ucheldir Diffaith / Creigiog (10%) / Ochr Bryniau &amp; Llethrau Sgarp (8%) / <u>Rhostir Ucheldirol</u> (33%) / <u>Trefol</u> (49%) VS5: Cymysgedd ( 57%) / Tir Agored (43%)</p>	
	<b>Dylanwadau a Wnaed gan Ddyn</b>	<p><b>Mae datblygiadau modern wedi ei grynhoi o fewn ac yn agos at yr aneddiadau trefol</b> sydd wedi eu canoli ar hyd coridorau'r brif ffordd i'r de o'r ACT hon. Mewn mannau eraill mae'r dirwedd hon yn ansetledig (heb ei anheddu). Yn ogystal â'r aneddiadau y prif ddylanwadau yw'r <b>hen chwareli llechi a thomenni gwastraff cysylltiedig, llwybr twristiaeth yr A470 a Rheilffordd Ffestiniog.</b></p> <p>VS6: Cymysgedd ( 8%) / <u>Dim aneddiadau</u> (43%) / <u>Pentref</u> (49%)                      VS27: Teg (51%) / Poor (49%)</p>	↓
	<b>Patrwm anheddiad</b>	Dim yn berthnasol	
<b>Gweledol</b>	<b>Y gorwel a gosodiad</b>	Dim yn berthnasol	
	<b>Symudiad</b>	Dim yn berthnasol	

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
<p><b>Gwelededd, Golyggannau Allweddol, Golygfeydd a Derbynyddion Nodweddiadol</b> (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)</p>	<p>Mae'r golygfeydd yn nodweddiadol agored a <b>digysgod</b> o fewn rhannau uwch yr ACT hon, tra fo'r golygfeydd o fewn yr ardaloedd is wedi'u <b>hamgáu</b> sy'n gyferbyniad. Mae cysylltiadau gweledol cryf gyda mynyddoedd y Parc Cenedlaethol gerllaw. VS9: <u>Amgaeedig</u> (49%) / Agored (8%) / <u>Digysgod</u> (43%)</p> <p>Mae'r derbynyddion nodweddiadol yn cynnwys deiliaid, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y manau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eiddo</li> <li>• Ardaloedd Mynediad Agored</li> <li>• Atyniadau lleol gan gynnwys Ceudyllau Llechi Llechwedd</li> <li>• Hawliau tramwy cyhoeddus</li> <li>• Llwybrau twristiaeth A470 a A496</li> <li>• Rheilffordd Ffestiniog</li> <li>• Y rhwydwaith ffyrdd lleol</li> </ul>	-
<p><b>Golygfeydd i ac o Nodweddion Tirwedd a threftadaeth Ddiwylliannol Pwysig</b> (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)</p>	Dim yn berthnasol	
<p><b>Esthetig, Canfyddiadol a thrwy brofiad</b></p>	<p><b>Cyflwr</b></p>	
	<p><b>Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa</b></p> <p>Tirwedd gyda gwrthgyferbyniadau cryf o ran ansawdd golygfaol gyda gwerthusiadau LANDMAP <b>Isel i Eithriadol</b>.</p> <p>VS25: Cryf (92%) / Gwan (8%)                  VS46: Isel (49%) / Canolig (8%) / Eithriadol (43%)                  VS47: Isel (49%) / Canolig (8%) / Uchel (43%)                  VS48: Cymedrol (8%) / Uchel (49%) / Eithriadol (43%)</p>	-

Adendwm i Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd a Chapasiti Mawrth 2014 Gwynedd a Môn

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
	<b>Pellenigrwydd / Anghysbell / Llonyddwch</b>	Mae'r naws anghysbell a llonyddwch yn <b>amrywio'n fawr</b> drwy gydol yr ACT hon. Mae rhannau uwch a mwy pellennig y dirwedd yn cyfleu ymdeimlad cryfach o lonyddwch. Mae hyn yn llawer is yn ac o amgylch Blaenau Ffestiniog. VS24: Digysgod (33%) / Arall (57%) / Gwyllt (10%)	-
Value	<b>Gwerth y Dirwedd</b> (gan gynnwys nodweddion perthnasol i'r dirwedd)	Mae'r nodweddion a ddynodwyd yn genedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored. Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol <b>Uchel</b> gyda rhai ardaloedd yn <b>Eithriadol</b> . VS50: Isel (49%) / Canolig (8%) / Uchel (10%) / Eithriadol (33%) VS49: Isel (49%) / Canolig (8%) / Uchel (43%) LH45: Isel (7%) / Canolig (58%) / Uchel (5%) / Eithriadol (30%) LH42: Heb Ei Asesu (100%) GL31: Cymedrol (47%) / Eithriadol (37%) GL33: Cymedrol (47%) / Eithriadol (53%)	↑
	<b>Gwerth Hanesyddol</b>	Mae llawer o'r ATA hon yn gorwedd o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Blaenau Ffestiniog.  Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol <b>Eithriadol</b>  HL38: Uchel (74%) / Eithriadol (14%) / Heb Ei Asesu (11%) HL35: Uchel (13%) / Eithriadol (87%) HL40: Uchel (10%) / Eithriadol (90%)	↑

**Sensitifrwydd a Strategaeth Tirwedd Cyffredinol**

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd mewn perthynas â datblygiad PV solar mewn caeau (yn seiliedig ar dabl gwerthuso sensitifrwydd ACD), ynghyd â'r strategaeth tirwedd arfaethedig:

*DATBLYGIADAU YNNI PV SOLAR MEWN CAEAU*

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
<b>Canolig-Uchel</b>	<p>Caiff cymeriad tirwedd yr ACD hon ei ddylanwadu'n gryf gan hen chwareli llechi gydag ardaloedd eang o wastraff llechi yn weladwy ledled yr ardal. Caiff rhannau deheuol a chanolog hefyd eu dylanwadu gan ddatblygiad yn enwedig ym Mlaenau Ffestiniog ac o'i hamgylch. Mae'r ffactorau hyn yn arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiadau ynni PV solar mewn caeau.</p> <p>Caiff y gostyngiad mewn ansawdd golygfaol ei wrthbwysu gan ymdeimlad cryf o le oherwydd bod hon yn dirwedd hynod hanesyddol, a adlewyrchir yn y ffaith fod llawer o'r ardal wedi'i chynnwys o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Blaenau Ffestiniog.</p> <p>Ystyrir bod llawer o'r ucheldir hwn ar raddfa fawr i eang gyda dim ond cyfran fechan o ran is a deheuol yr ACD yn cynnwys caeau bugeiliol nodweddiadol ar raddfa fechan. Fel arfer, mae caeau o'r fath yn afreolaidd eu patrwm ac mae ffiniau wedi'u cymysgu â choed gwrychoedd niferus. Mae patrwm y caeau wedi'i fritho gydag ardaloedd o goetiroedd llydanddail.</p> <p>Mae'r nodweddion hyn, ynghyd â phresenoldeb nifer o dderbynyddion gweledol sensitif a thirffurf amlwg yr ardal, a rhyngweledded a chysylltiadau cryf â'r Parc Cenedlaethol yn cynyddu sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiadau ynni PV solar mewn caeau.</p>
STRATEGAETH TIRWEDD	
Amcan Tirwedd	<p><b>Diogelu Tirwedd</b> - yr holl ardaloedd sy'n cyfrannu at olygfa a gosodiad y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE).</p> <p><b>Cymhwysiad Tirwedd</b> - ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at olygfa a gosodiad y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol CDLIE.</p>
Datblygu Gwaelodlin	Dim datblygiadau ynni PV solar mewn caeau ar hyn o bryd neu wedi cael eu caniatáu.
Capasiti Cyffredinol Dangosol	<p><b>Fel arfer, nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau ynni PV solar mewn caeau</b> mewn ardaloedd sy'n cyfrannu at olygfa a gosodiad y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol CDLIE.</p> <p>Tu allan i'r ardaloedd hyn, efallai bod yna <b>gapasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau</b> allai fel arfer gynnwys cynlluniau ar raddfa ficro sy'n cydweddu â graddfa a phatrwm caeau lleol. Dylid lleoli unrhyw ddatblygiad newydd yn ofalus i leihau effeithiau tirwedd a gweledol andwyol ac er mwyn osgoi effeithiau cronus annerbyniol gyda datblygiadau modern presennol.</p>

**Canllaw**

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn sicrhau bod yna gyn lleied ag y bo modd o effeithiau andwyol.

<b>Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli</b>	<b>Ynni PV Solar ar Raddfa Cae</b>
Gwarchod harddwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei rinweddau arbennig a'i leoliad ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd i ac o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu ymdeimlad o fod yn ymwthio / lechfeddiannu annerbyniol, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydanws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol / gronnol ar y Parc Cenedlaethol.	✓
Dylai datblygiadau barchu a diogelu gosodiad y dirwedd a ddiffinnir yn y CDLIE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig / anghysbell a gwyllt.	✓
Ystyried effeithiau cronol potensial datblygiadau presennol ac arfaethedig ar y tirwedd.	✓
Cynnal uniondeb Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Blaenau Ffestiniog.	✓
Diogelu gosodiad nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig dynodedig ac eraill; a'r golygfeydd allweddol i ac o'r nodweddion hyn.	✓
Osgoi effeithiau cronus ar lwybrffordd twristiaeth yr A470 a Rheilffordd Ffestiniog.	✓
Fe ddylid osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad o fewn y llinellau gwelededd o olygfannau allweddol, yn enwedig tuag at y Parc Cenedlaethol.	✓
Dylai datblygiadau osgoi effeithiau andwyol ar ardaloedd o goetir hynafol sydd wedi eu lleoli o fewn ardaloedd is gorwedd i'r de o'r ACT.	✓

### G13 Abermaw



1:50,000



Atgynhychwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatod yr Arolwg Ordnans R ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, c Rhif y Drwydded Hawffraint y Goron 100023387



**Lleoliad a Maint**

Mae'r ACT cymharol fach hon yn gorwedd ar hyd arfordir de-orllewinol Gwynedd ac mae'n cynnwys trefi glan mor Abermaw (Y Bermo) a Fairbourne yng ngheg Aber y Fawddach.

**Nodweddion Allweddol**

- Tirwedd sy'n gorwedd yn isel, maint canolig, arfordirol gydag aber eang, agored
- Wedi'i amgau tua'r dwyrain gan dirwedd ucheldirol y Parc Cenedlaethol
- Datblygwyd yn weddol ar gyfer twristiaeth

**Arfarniad**

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hwn yn erbyn meini prawf sensitifrwyddsydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad gwahanol.

<b>Allwedd</b>	Sensitifrwydd Canolig	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	
----------------	-----------------------	---	-----------------------	---	------------------	---	--	--

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
Tirwedd	Scale	Not applicable	
	Patrwm, Graddfa a Chlostiroedd Caeau	Ar y cyfan, mae caeau ar raddfa fechan a chanolig a cheir patrwm amrywiol i'r caeau yn cynnwys clostiroedd o ffriddoedd ar yr ucheldir. <sup>1</sup> Caiff ffiniau mewn caeau eu diffinio <b>fel arfer gan waliau cerrig sych traddodiadol</b> .  VS7: Ffensys (2%) / Dim (63%) / Waliau Cerrig (35%) VS8: Canolig (91%) / Mawr (9%)	↑
	Tirffurf	Mae gwrthgyferbyniadau nodedig yn nhirffurf yr ACT hon a nodweddir gan <b>aber agored</b> eang a gwastadedd arfordirol <b>cul gyda chefnlen o dir sy'n codi'n sydyn</b> yn fewndirol.  VS Lefel Dosbarthiad 2: Tir Adeiledig (31%) / Arfordirol (32%) / Ucheldir / Llwyfandir Digysgod ( 9%) / Iseldir Treigl (26%) VS4: Bryniau Uchel / Mynyddoedd(9%) / Lefelau (22%) /	↑

<sup>1</sup> Mae ffridd yn disgrifio cymysgedd amrywiol o lystyiant glaswelltir a rhostir gyda rhedyn a phrysg a welir yn aml ar ochrau dyffrynnoedd rhwng rhannau ucheldirol ac iseldirol Cymru. Ni cheir cyfieithiad uniongyrchol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer y term hwn.

Adendwm i Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd a Chapasiti Mawrth 2014 Gwynedd a Môn

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
		Treigl / Tonnog (66%)	
	<b>Gorchudd Tir</b>	Cymysgedd o <b>orchudd tir amaethyddol</b> , a nodweddir gan gaeau bugeiliol ar yn ail gydag aneddiadau arfordirol ac ardaloedd o <b>goetir llydanddail a phlanhigfeydd coniferaidd, ynghyd a chlostiroedd ymylol ucheldirol</b> , o ffridd. VS Lefel Dosbarthiad 3: Rhynglanwol (31%) / Iseldir Treigl Agored (26%) / Rhostir Ucheldirol (9%) / Trefol (31%) VS5: Cymysgedd (91%) / Tir Agored (9%)	↑
	<b>Dylanwadau a Wnaed gan Ddyn</b>	Mae'r dylanwadau a wnaed gan ddyn yn yr ACT hon wedi'u <b>crynhai</b> fel arfer ar hyd y llain arfordirol gul o <b>amgylch prif aneddiadau</b> Abermaw a Fairbourne, priffordd yr A496 a Rheilffordd Arfordir y Cambrian ac mae'n cynnwys nifer o barciau carafanau statig / cabanau gwyliau. <b>Fel mae'r tirffurf yn codi yn fewndirol mae'r dylanwad a wnaed gan ddyn yn llai amlwg.</b> VS6: Dim aneddiadau (9%) / Gwasgaredig Gwledig / Fferm (58%) / Trefol (31%)	-
	<b>Patrwm anheddiad</b>	Dim yn berthnasol	
Visual	<b>Nenlinellau a Chefndiroedd</b>	Dim yn berthnasol	
	<b>Symudiad</b>	Dim yn berthnasol	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
	<p><b>Gwelededd, Golygfannau Allweddol, Golygfeydd a Derbynyddion Nodweddiadol</b> (o fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)</p>	<p>Mae'r golygfeydd yn nodweddiadol <b>agored</b> o fewn yr ACT hon. VS9: Amgaeedig (6%) / Agored (70%) / Digysgod (24%) Mae'r derbynyddion nodweddiadol yn cynnwys deiliaid, defnyddwyr ac ymwelwyr i'r manau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eiddo niferus yn enwedig ar hyd yr arfordir</li> <li>• Parc Cenedlaethol Eryri</li> <li>• Llwybrau pellter hir, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr ffordd feicio genedlaethol Sustrans Lon Las Cymru (llwybr RhBC 8) a llwybr cyswllt at RhBC Llwybr RhBC 8</li> <li>• Ardaloedd Mynediad Agored</li> <li>• Cyrchfannau gwyliau poblogaidd ac atyniadau lleol fel Rheilffordd Stem Fairbourne</li> <li>• Hawliau tramwy cyhoeddus</li> </ul>	↑
	<p><b>Golygfeydd i ac o Nodweddion Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol Pwysig</b> (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)</p>	Dim yn berthnasol	
Ethsetig, Canfyddiadol a thrwy brofiad	<b>Cyflwr</b>	Dim yn berthnasol	
	<b>Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa</b>	<p>Mae'r gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol <b>Gymedrol</b></p> <p>VS25: Cymedrol (81%) / Cryf (19%) VS46: Isel (31%) / Canolig (29%) / Uchel (40%) VS47: Isel (30%) / Canolig (30%) / Uchel (40%) VS48: Cymedrol (60%) / Uchel (40%)</p>	-
	<b>Pellenigrwydd / Anghysbell / Llonyddwch</b>	<p>Mae yna <b>ganfyddiad o bellenigrwydd a llonyddwch yn y rhannau uwch o'r ACT hon</b>. Draw o'r manau hyn, mae'r prif goridorau ffyrdd ac aneddiadau cymharol fawr ar hyd yr arfordir yn <b>lleihau'r teimlad o bellenigrwydd a llonyddwch</b>.</p>	-

Adendwm i Aseiad Sensitifrwydd Tirwedd a Chapasiti Mawrth 2014 Gwynedd a Môn

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Aseiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
		VS24: Digysgod (9%) / Arogl (47%) / Arogl; Deniadol; Wedi'i gysgodi; Ysbrydol (10%) / Aneniadol; Arogl (31%)	
Gwerth	<b>Gwerth y Dirwedd</b> (gan gynnwys nodweddion perthnasol i'r dirwedd)	<p>Mae llawer o'r ATA hon yn gorwedd o fewn ATA Abermaw (Mae'r ACT hon a'r ATA yn rhannu'r un ffin ac eithrio'r ardal o gwmpas Fairbourne).</p> <p>Mae'r nodweddion a ddynodwyd yn genedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored, a llwybrau beicio cenedlaethol Sustrans Lon Las Cymru (llwybr RhBC 8) a llwybr cyswllt at RhBC Llwybr RhBC 8.</p> <p>Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar hyd yr ACT.</p> <p>Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol <b>Uchel</b> gyda rhai ardaloedd yn <b>Eithriadol</b>.</p> <p>VS50: Isel (31%) / Canolig (29%) / Uchel (40%)                      VS49: Isel (31%) / Canolig (29%) / Uchel (40%)                      LH45: Isel (31%) / Canolig (26%) / Uchel (9%) / Eithriadol (34%)                      LH42: Heb Ei Asesu (100%)                      GL31: Eithriadol (99%)                      GL33: Eithriadol (99%)</p>	↑
	<b>Gwerth Hanesyddol</b>	<p>Mae'r ACT hon yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Arduwy a Thirwedd Hanesyddol Gofrestredig Mawddach.</p> <p>Mae rhan o'r ACT hefyd yn gorwedd o fewn lleoliad hanfodol Parc a Gardd Gofrestredig.</p> <p>Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol <b>Uchel-Eithriadol</b>.</p> <p>HL38: Cymedrol (22%) / Uchel (53%) / Eithriadol (8%) / Heb Ei Asesu (16%)                      HL35: Cymedrol (16%) / Uchel (44%) / Eithriadol (40%)                      HL40: Cymedrol (16%) / Uchel (44%) / Eithriadol (40%)</p>	↑

**Sensitifrwydd a Strategaeth Tirwedd Cyffredinol**

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd mewn perthynas â datblygiad PV solar mewn caeau (yn seiliedig ar dabl gwerthuso sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth tirwedd arfaethedig:


## DATBLYGIADAU YNNI PV SOLAR MEWN CAEAU

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
<b>Uchel</b>	<p>Mae'r dirwedd arfordirol hon yn cynnwys ceg aber Abermaw gyda thir arfordirol cul a thirffurf esgynedig ar bob ochr. Caiff ei hamgylchynu yn y mewndir gan ucheldir y Parc Cenedlaethol. Mae'r tir arfordirol wedi'i ddatblygu'n weddol dda ar gyfer twristiaeth.</p> <p>Mae cyrchfannau, ynghyd ag isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd mawr yn dylanwadu ar gymeriad y dirwedd ar hyd yr arfordir cyfagos ac yn lleihau'r ymdeimlad o bellnigrwydd a llonyddwch, ac felly'n lleihau sensitifrwydd i ddatblygiadau PV solar mewn caeau.</p> <p>Caiff y sensitifrwydd is hwn ei orbwysu gan bresenoldeb tirffurf a gyfyd yn ddramatig ar y mewndir ac mae cyffredinolrwydd waliau cerrig sychion yn cynyddu sensitifrwydd mewn llefydd ble ceir llecynnau caeedig. Caiff sensitifrwydd ei gynyddu ymhellach gan bresenoldeb derbynyddion gweledol sensitif, nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig a lefel uchel o ryngweledd gyda thirwedd y Parc Cenedlaethol a werthfawrogrir yn fawr. Mae'r ACD hefyd wedi'i lleoli yn gyfan gwbl o fewn ATA Abermaw a rhannau o Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig Ardudwy a Thirwedd Hanesyddol Gofrestredig Mawddach.</p>
STRATEGAETH TIRWEDD	
Amcan Tirwedd	<b>Diogelu Tirwedd</b>
Datblygu Gwaelodlin	Dim datblygiadau ynni PV solar mewn caeau ar hyn o bryd nac wedi cael eu caniatáu.
Capasiti Cyffredinol Dangosol	Fel arfer, <b>dim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni PV solar mewn caeau.</b>

**Canllawiau**

Nid yw nodiadau canllaw yn berthnasol oherwydd nid oes capasiti fel arfer ar gyfer datblygiadau ynni PV solar mewn caeau yn ACT Abermaw.

### G14 Corris



1:50,000



Reproduced from the Ordnance Survey map with the permission of Ordnance Survey® on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright Licence No. 100023387

**Lleoliad a Maint**

Mae'r ACT hon wedi ei lleoli tua'r de pell yng Ngwynedd ac o amgylch Corris. Mae'r ACT yn ffinio Powys tua'r de a'r Parc Cenedlaethol tua'r gogledd, y gorllewin a'r dwyrain.

**Nodweddion Allweddol**

- Tirwedd ucheldirol, ar raddfa fawr
- Planhigfeydd conifferaidd eang
- Gweddillion safleoedd chwareli a gwastraff llechi

**Gwerthusiad**

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hwn yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad gwahanol.

<b>Allwedd</b>	Sensitrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	
----------------	------------------	---	-----------------------	---	------------------	---	--	--

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
<b>Landscape</b>	<b>Graddfa</b>	Dim yn berthnasol	
	<b>Patrwm, Graddfa a Chlostiroedd Caeau</b>	Lleolir caeau ar raddfa fechan a chanolig ar hyd y llethrau is ac yng ngwaelodion y dyffryn mewn patrwm cymharol reolaidd. Mae ffiniau caeau yn cynnwys <b>cymysgedd o ffensys, waliau cerrig sychion a gwrychoedd, a cheir coed niferus ym mhob un.</b>  VS7: Ffensys (2%) / Cymysgedd (17%) / <u>Dim</u> (80%) VS8: Canolig (16%) / <u>Mawr</u> (84%)	-
	<b>Tirffurf</b>	Tirffurf ucheldirol wedi ei nodweddu gan <b>fryniau uchel a mynyddoedd.</b>  VS Lefel Dosbarthiad 2: Bryniau, Llwyfandir Is & Llethrau Sgarp ( 84%) / Dyffrynnoedd Ucheldirol <sup>16%</sup> VS4: Bryniau Uchel / Mynyddoedd <sup>(84%)</sup> / Bryniau / Dyffrynnoedd <sup>(16%)</sup>	↑
	<b>Gorchudd Tir</b>	Mae <b>unffurfiaeth y blanhigfa gonifferaidd sy'n cwmpasu llawer o'r ACT hon yn cael ei rhannu gan</b>	-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
		goetir llydanddail, ucheldiroedd agored, ac mae gweddillion chwareli a phorfeydd bach yn bresennol ar hyd gwaelod y dyffrynnoedd VS Lefel Dosbarthiad 3: Llethrau coediog a sgarp ar lethrau'r bryniau (84%) / Dyffrynnoedd Ucheldirol Coediog (16%) VS5: Coedlan (100%)	
	<b>Dylanwadau a Wnaed gan Ddyn</b>	Mae llawer o'r ACT hon yn <b>ansetledig</b> . Mae'r dylanwadau a wnaed gan ddyn yn cynnwys <b>planhigfeydd masnachol coedwigaeth</b> , hen chwareli llechi a llwybr twristiaeth yr A487, ac mae'r anheddiad wedi'i ganoli ar ei hyd. VS6: Clystyrog (16%) / Dim aneddiadau (84%) VS27: Teg (100%)	↑
	<b>Patrwm anheddiad</b>	Dim yn berthnasol	
<b>Gweledol</b>	<b>Nenlinelloedd a chefnidiroedd</b>	Dim yn berthnasol	
	<b>Symudiad</b>	Dim yn berthnasol	



	Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
	<p><b>Gwelededd, Golygfannau Allweddol, Golygfeydd a Derbynyddion Nodweddiadol</b> (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)</p>	<p>Mae llawer o'r golygfeydd wedi cael eu <b>cyfyngu</b> o fewn yr ACT hon, yn enwedig o fewn yr ardaloedd is ac yn ac o gwmpas y planhigfeydd a'r coetiroedd. Draw oddi wrth yr ardaloedd hyn, mae rhyngwelededd da rhwng yr ACT hon a'r Parc Cenedlaethol <b>gyda chysylltiadau gweledol cryf i ac o ardaloedd uwch</b>, yn enwedig Cadair Idris.</p> <p>VS9: Cyfyngedig (84%) / Amgaeedig (16%)</p> <p>Mae'r derbynyddion nodweddiadol yn cynnwys deiliaid, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymharol ychydig eiddo</li> <li>• Parc Cenedlaethol Eryri</li> <li>• Ardaloedd Mynediad Agored</li> <li>• Llwybr beicio hirbell cenedlaethol Sustrans Lon Las Cymru (RhBC Llwybr 8)</li> <li>• Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus</li> <li>• Llwybr twristiaeth yr A487</li> <li>• Y rhwydwaith ffyrdd lleol</li> </ul>	-
	<p><b>Golygfeydd i ac o Nodweddion Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol pwysig</b> (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)</p>	Dim yn berthnasol	
Aesthetic, Perceptual and Experiential	<p><b>Cyflwr</b></p>	Dim yn berthnasol	
	<p><b>Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa</b></p>	<p>Gwerthusiad LANDMAP nodweddiadol uchel VS25: Cymedrol (16%) / Cryf (84%) VS46: Isel (84%) / Canolig (16%) VS47: Cymedrol (16%) / Uchel (84%) VS48: Cymedrol (16%) / Uchel (84%)</p>	↑
	<p><b>Pellenigrwydd / Anghysbell / Llonyddwch</b></p>	<p>Am fod y rhan fwyaf o'r ACT hon yn ansetledig yn bennaf gyda dim ond ychydig o ffyrdd lleol, mae yn yr ACT hon <b>ymdeimlad o lonyddwch a phellenigrwydd</b>. Draw oddi wrth yr ardaloedd mae hyn yn cael ei leihau <b>yn lleol</b> mewn mannau yn sgil</p>	↑

Adendwm i Aseiad Sensitifrwydd Tirwedd a Chapasiti Mawrth 2014 Gwynedd a Môn

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Aseiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
		gweithgareddau coedwigaeth fasnachol a datblygiadau modern ar hyd coridor yr A487. VS24: Arall (16%) / Wedi'i gysgodi (84%)	
Gwerth	<b>Gwerth y Dirwedd</b> (gan gynnwys nodweddion perthnasol i'r dirwedd)	<p>Mae'r ACT hon yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn ATA Corris (Mae'r ACT a'r ATA yn rhannu'r un ffiniau).</p> <p>Mae'r nodweddion a ddynodwyd yn genedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr ffordd feicio genedlaethol Sustrans Lon Las Cymru (llwybr RhBC 8).</p> <p>Mae'r gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol <b>gymedrol</b>.</p> <p>VS50: Cymedrol (100%) VS49: Isel (84%) / Canolig (16%) LH45: Isel (51%) / Canolig (23%) / Uchel (26%) LH42: Heb Ei Asesu (90%) / (blank) (10%) GL31: Uchel (100%) GL33: Uchel (100%)</p>	↑
	<b>Gwerth Hanesyddol</b>	<p>Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol Ganolig - Uchel gyda rhai ardaloedd yn <b>Eithriadol</b>.</p> <p>HL38: Cymedrol (22%) / Uchel (67%) / Heb Ei Asesu (11%) HL35: Isel (41%) / Uchel (22%) / Eithriadol (37%) HL40: Isel (11%) / Canolig (30%) / Uchel (22%) / Eithriadol (37%)</p>	↑

**Sensitifrwydd a Strategaeth Tirwedd Cyffredinol**

Mae'r tablau isod yn darparu crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd mewn perthynas â datblygiad PV solar mewn caeau (yn seiliedig ar dabl gwerthuso sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth tirwedd arfaethedig:

*DATBLYGIADAU YNNI PV SOLAR MEWN CAEAU*

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
<b>Uchel</b>	<p>Ar y dirwedd hon, sydd ar y cyfan yn ucheldirol ac ar raddfa eang, ceir llawer iawn o blanhigfeydd conifferaidd. Lleolir caeau bugeiliol ar raddfa fechan a chanolig ar hyd y llethrau is ac yng ngwaelodion y dyffryn mewn patrwm cymharol reolaidd gyda chymysgedd o ffiniau. Mae datblygiadau presennol wedi'u cyfyngu ac fe'u canolbwyntir ar hyd y ffyrdd sy'n dilyn gwaelodion y dyffryn. Yn gyffredinol, ceir ymdeimlad cryf o lonyddwch a phellenigrwydd yn y dirwedd.</p> <p>Er bod presenoldeb derbynyddion gweledol sensitif yn gymharol gyfyngedig, caiff sensitifrwydd i ddatblygiadau ynni PV solar mewn caeau ei gynyddu'n sylweddol gan dirffurf ucheldirol yr ardal, cysylltiadau cryf a rhyngweledd gyda'r Parc Cenedlaethol a gwerth rhanbarthol y dirwedd a adlewyrchir yn y ffaith ei fod yn bodoli yn gyfan gwbl o fewn ATA Corris.</p>
STRATEGAETH TIRWEDD	
<b>Amcan Tirwedd</b>	<b>Diogelu Tirwedd</b>
Datblygu Gwaelodlin	<p>Dim datblygiadau ynni PV solar mewn caeau ar hyn o bryd nac wedi cael eu caniatáu o fewn yr ACD hon.</p> <p>Un <b>datblygiad micro</b> wedi'i ganiatáu (180kw) wedi'i leoli tuag at ymyl yr ardal astudiaeth byffer 5km ym Mhowys (ar dir gyferbyn â fferm yng Nghaeddol, Llanwrin).</p>
Capasiti Cyffredinol Dangosol	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Fel arfer, <b>dim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni PV solar mewn caeau.</b></li> </ul>

**Canllawiau**

Nid yw nodiadau canllaw yn berthnasol oherwydd nid oes capasiti fel arfer ar gyfer datblygiadau ynni PV solar mewn caeau yn ACD Corris.

### G15 Tywyn



1:25,000



Reproduced from the Ordnance Survey map with the permission of Ordnance Survey ® on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright Licence No. 100023387

**Lleoliad a Maint**

Mae'r ACT hon yn gymharol fach yn gorwedd ar yr arfordir i'r de-orllewin pell yng Ngwynedd. Mae'r ACT yn cynnwys tref arfordirol Tywyn ac yn cael ei ffinio gan y Parc Cenedlaethol.

**Nodweddion Allweddol**

- Tirwedd arfordirol agored wastad o faint canolig
- Wedi'i amgau tua'r dwyrain gan dirwedd ucheldirol y Parc Cenedlaethol
- Wedi ei ddatblygu'n gymharol drwm tua'r de

**Arfarniad**

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hwn yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad gwahanol.

<b>Allwedd</b>	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	
----------------	--------------------	---	-----------------------	---	------------------	---	--	--

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
<b>Landscape</b>	<b>Graddfa</b>	Dim yn berthnasol	
	<b>Patrwm, Graddfa a Chlostiroedd Caeau</b>	<p><b>Caeau ar raddfa ganolig a mawr ydynt yn bennaf ac maent yn rheolaidd eu patrwm . Cymysgedd o ffiniau caeau yn cynnwys ffensys pyst a weiren a/neu ffosydd caeau, gwrychoedd bylchog a waliau cerrig sychion.</b></p> <p>VS7: Ffensys (7%) / Gwrych wedi'i reoli (6%) / Cymysgedd (28%) / <u>Waliau Cerrig</u> (59%)                      VS8: <u>Canolig</u> (91%) / Mawr (9%)</p>	-
	<b>Tirffurf</b>	<p>Gwastadedd arfordirol <b>gwastad</b> yn gorwedd yn isel.</p> <p>VS Lefel Dosbarthiad 2: Tir Adeiledig (37%) / Arfordirol (61%)                      VS4: Lefelau (99%)</p>	↓
	<b>Gorchudd Tir</b>	Anheddiad cyrchfan arfordirol wedi ei hamgylchynu gan borfeydd garw isel. Aber afon	↓

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
		tua'r gogledd. VS Lefel Dosbarthiad 3: Twyni a Slac Twyni (9%) / Rhynglanwol (52%) / Trefol (37%) VS5: Datblygiad (37%) / Cymysgedd (52%) / Tir Agored (9%)	
	<b>Dylanwadau a Wnaed gan Ddyn</b>	Mae'r ACT hon yn cael ei <b>dylanwadu'n drwm gan ddatblygiad. Mae ystadau modern a meysydd carafanau</b> yn dominyddu tref wyliau Tywyn sy'n cwmpasu ychydig o dan hanner yr ACT hon. Mae <b>gwaith trin carthion</b> wedi cael eu lleoli tua'r gogledd ac mae <b>priffordd yr A493</b> yn rhedeg drwy'r de'r ACT. Mae <b>Rheilffordd Arfordirol y Cambrian</b> yn rhedeg drwy Dywyn ac ar hyd yr arfordir. Mae <b>fferm PV solar presennol</b> wrth ymyl y barics milwrol.  VS6: Dim aneddiadau (52%) / Gwasgaredig Gwledig / Fferm (9%) / Trefol (37%) VS27: Sal (52%) / Teg (48%)	↓
	<b>Patrwm anheddiad</b>	Dim yn berthnasol	
<b>Visual</b>	<b>Nenlinellau a Chefndiroedd</b>	Dim yn berthnasol	
	<b>Symudiad</b>	Dim yn berthnasol	

	Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
	<p><b>Gwelededd, Golygfannau Allweddol, Golygfeydd a Derbynyddion Nodweddiadol</b>                      (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)</p>	<p>Mae'r golygfeydd yn nodweddiadol <b>agored</b> ac mae gan yr ardal <b>gysylltiadau cryf gyda'r Parc Cenedlaethol</b> sy'n gorwedd reit yn ymyl. Mewn mannau mae'r golygfeydd tua'r mor yn cael eu cyfyngu gan arglawdd y rheilffordd. Ceir y golygfeydd o ogledd yr ACT tuag at chwarel weithredol ar draws dŵr yr Afon Dysynni. Mae rhai golygfeydd tua'r mor yn cael eu cyfyngu gan arglawdd y rheilffordd.</p> <p>VS9: Agored (100%)</p> <p>Mae'r derbynyddion nodweddiadol yn cynnwys deiliaid, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eiddo niferus</li> <li>• Llwybrau pellter hir gan gynnwys Sustrans Porthmadog to Machynlleth (Ilwybr RhBC 82) a Llwybr Arfordir Cymru</li> <li>• Atyniadau lleol fel Rheilffordd Talyllyn</li> <li>• Hawliau tramwy cyhoeddus</li> <li>• Llwybr twristiaeth yr A493 a rheilffordd Arfordir y Cambrian</li> <li>• Y rhwydwaith ffyrdd lleol</li> <li>• Chwaraewyr chwaraeon dŵr a defnyddwyr cychod</li> </ul>	<p>↑</p>
	<p><b>Golygfeydd i ac o Nodweddion Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol Pwysig</b>                      (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)</p>	<p>Dim yn berthnasol</p>	
<p><b>Esthe tig,</b></p>	<p><b>Cyflwr</b></p>	<p>Dim yn berthnasol</p>	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i Ynni Solar PV ar Raddfa Cae
	<b>Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa</b>	Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol <b>isel</b> VS25: Gwan (90%) / Canolig (10%) VS46: Isel (89%) / Uchel (10%) VS47: Isel (89%) / Uchel (9%) VS48: Isel (89%) / Uchel (9%)	↓
	<b>Pellenigrwydd / Anghysbell / Llonyddwch</b>	Mae'r prif goridorau ffyrdd a rheilffyrdd ac anheddiad cymharol fawr Tywyn yn <b>lleihau'r teimlad o bellenigrwydd a llonyddwch</b> o fewn yr ACT hon yn fawr iawn. VS24: Digysgod;Arall (9%) / Wedi'i gysgodi; Arall (37%) / Arogl (52%)	↓
<b>Gwerth</b>	<b>Gwerth y Dirwedd</b> (gan gynnwys nodweddion perthnasol i'r dirwedd)	Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol <b>gymedrol</b> gyda rhai ardaloedd yn <b>Eithriadol</b> .  Mae'r nodweddion a ddynodwyd yn genedlaethol yn cynnwys llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Porthmadog i Fachynlleth (llwybr RhBC 82).  Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar hyd yr ACT.  VS50: Isel (89%) / Uchel (9%) VS49: Isel (37%) / Canolig (54%) / Uchel (9%) LH45: Isel (27%) / Canolig (45%) / Eithriadol (28%) LH42: Uchel (45%) / Heb Ei Asesu (55%) GL31: Eithriadol (100%) GL33: Eithriadol (100%)	-
	<b>Gwerth Hanesyddol</b>	Mae'r ACT hon yn gorwedd o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Dysynni.  Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol <b>Eithriadol</b> . HL38: High (25%) / <u>Outstanding</u> (75%) HL35: High (25%) / <u>Outstanding</u> (75%) HL40: Outstanding (100%)	↑



**Sensitifrwydd a Strategaeth Tirwedd Cyffredinol**

Mae'r tablau isod yn darparu crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd mewn perthynas â datblygiad PV solar mewn caeau (yn seiliedig ar dabl gwerthuso sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth tirwedd arfaethedig:

*DATBLYGIADAU YNNI PV SOLAR MEWN CAEAU*

<b>SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL</b>	
<b>Canolig</b>	<p>Mae'r dirwedd isel, arfordirol agored hon sydd ar raddfa ganolig wedi'i hamgylchynu i'r dwyrain gan ucheldir esgynnol y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Caeau ar raddfa ganolig a mawr ydynt yn bennaf ac maent yn rheolaidd eu patrwm. Ceir cymysgedd o ffiniau caeau gan gynnwys ffensys pyst a weiren a/neu ffosydd caeau, gwrychoedd bylchog a waliau cerrig sychion. Mae tref arfordirol Tywyn, ynghyd ag isadeiledd y briffordd a'r rheilffordd yn dylanwadu ar gymeriad y dirwedd ar hyd y rhan hon o'r morlin ac yn lleihau'r ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch, ac felly'n lleihau sensitifrwydd hefyd.</p> <p>Caiff y sensitifrwydd is hwn ei wrthbwysu gan bresenoldeb nifer o dderbynyddion gweledol sensitif, ynghyd â chysylltiadau cryf a lefel uchel o ryngweledd gyda'r Parc Cenedlaethol mewn rhai mannau. Mae'r ACD hefyd wedi'i lleoli yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Dysynni.</p>
<b>STRATEGAETH TIRWEDD</b>	
<b>Amcan Tirwedd</b>	<p><b>Diogelu Tirwedd</b> - yr holl ardaloedd sy'n cyfrannu at olygfa a gosodiad y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol CDLIE.</p> <p>Cymhwysiad Tirwedd - <b>ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at olygfa a gosodiad y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol CDLIE.</b></p>
<b>Datblygu Gwaelodlin</b>	Un datblygiad ar raddfa ganolig (ceir fferm solar 3.6MW yn uniongyrchol i'r dwyrain o Morfa Camp).
<b>Capasiti Cyffredinol Dangosol</b>	<p>Fel arfer, <b>nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau ynni PV solar mewn caeau</b> mewn ardaloedd sy'n cyfrannu at olygfa a gosodiad y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol CDLIE.</p> <p>Tu allan i'r ardaloedd hyn, efallai bod yna <b>gapasiti cyfyngedig iawn ar gyfer mwy o ddatblygiadau</b> allai gynnwys cynlluniau ar raddfa ficro a bach sy'n cydweddu â graddfa a phatrwm caeau lleol; fodd bynnag, dylid lleoli unrhyw ddatblygiad newydd yn ofalus i leihau effeithiau tirwedd a gweledol andwyol ac er mwyn osgoi effeithiau cronus annerbyniol gyda datblygiadau modern presennol.</p>

**Canllaw**

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn sicrhau bod yna gyn lleied ag y bo modd o effeithiau andwyol.

<b>Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli</b>	<b>Ynni PV Solar ar Raddfa Cae</b>
Gwarchod harddwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei rinweddau arbennig a'i leoliad ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd i ac o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu ymdeimlad o fod yn ymwthio / lechfeddiannu annerbyniol, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydanws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol / gronol ar y Parc Cenedlaethol.	✓
Dylid osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad ar hyd y morlin a'i union leoliad, ac fe ddylid osgoi yn enwedig gosodiad ardaloedd a ddiffinnir fel Arfordir Annatblygedig CDLIE.	✓
Cynnal uniondeb Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Dysynni.	✓
Diogelu gosodiad nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig dynodedig ac eraill; a'r golygfeydd allweddol i ac o'r nodweddion hyn.	✓
Ystyried effeithiau cronol potensial datblygiadau presennol ac arfaethedig ar y tirwedd.	✓
Osgoi effeithiau cronol ar lwybrau poblogaidd gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr beicio Sustrans o Fangor i Abergwaun (Llwybr RhBC 82) a golygfannau lleol - fe ddylid defnyddio delweddau i asesu golygfeydd dilyniannol (gan gynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad presennol).	✓
Lleoli datblygiadau ar raddfa fach yn agos at adeiladau sy'n bodoli eisoes er mwyn osgoi gormodedd o ddatblygiad o fewn y dirwedd ehangach.	✓
Dylid ystyried y golygfeydd o dderbynyddion preswyl, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn meddu ar olygfeydd o ddatblygiad modern. Dylid anelu at leoli er mwyn osgoi effeithiau gweledol cronus.	✓
Osgoi effeithiau cronol ar y prif lwybrau A493 / twristiaeth a Rheilffordd Arfordir y Cambrian.	✓